Tasg 3> Astudio iaith

Mae gan Edward Dennis ac Iolo Williams acenion cryf iawn ar y trac sain hwn. Maent yn defnyddio geiriau Saesneg yn ogystal â geiriau tafodieithol. Cofiwch;

Tafodiaith = Iaith sy'n perthyn i ardal arbennig.

Bratiaith = Defnydd o eiriau Saesneg neu ddylanwad y Saesneg ar yr iaith Gymraeg.

- Gwrandewch unwaith eto ar y trac sain a gwrandewch am eiriau tafodieithol ac am enghreiffitau o fratiaith.
- Cofnodwch y geiriau yn y colofnau cywir isod.
- Naill ai i'r golofn '**Tafodiaith**' neu i'r golofn '**Bratiaith**'.

Tafodiaith	**Bratiaith**

Os ydych chi'n cael anhawster dod o hyd i'r geiriau, beth am i chi gael cipolwg ar y geiriau canlynol ac ychwanegwch hwy i'r colofnau perthnasol.

shwt wyt ti	boi	olreit	jiawl
bachan	man	ishe	so
wthnos	moyn	chi'n 'mod	moment
jest	big bucks	jest	star